
ff/t: 01437 775545 e: programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk

Nodyn cyfarwyddyd ar gyfer cyfranogwyr yn yr archwiliad

1. Cyflwyniad

Fy enw i yw Ian Stevens. Fi yw'r Arolygydd Cynllunio a benodwyd gan Weinidogion Cymru i archwilio cadernid a chydymffurfedd cyfreithiol Cynllun Datblygu Lleol 2 2017–2033 Cyngor Sir Penfro ('yr CDLl'). O hyn ymlaen, fi fydd yn gweinyddu'r archwiliad fel yr unig arolygydd.

Mae'r nodyn hwn yn rhoi canllawiau i gyfranogwyr ar sut y bydd archwiliad yr CDLl yn cael ei gynnal. Mae gwybodaeth fanylach am amserlenni a gweithdrefnau'r archwiliad wedi'i nodi mewn canllawiau cyhoeddedig ar archwiliadau CDLl. Mae hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/archwiliadau-cynllun-datblygu-lleol-canllawiau-gweithdrefnol. Anogir cyfranogwyr i ymgyswngi â'r ddogfen hon.

2. Swyddog Rhaglen

Deborah Williamson yw'r Swyddog Rhaglen a hi sy'n gyfrifol am weinyddu'r archwiliad. Mae hi'n annibynnol ar Gyngor Sir Penfro ac yn gweithio o dan fy nghyfarwyddyd i. Deborah yw eich pwynt cyswllt ar gyfer yr holl wybodaeth am yr archwiliad. Dyma ei manylion cyswllt:

E-bost: programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk

Ffôn: 01437 775545

Cyfeiriad post: Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP

3. Mynediad at ddogfennau'r archwiliad

Mae copïau o ddogfennau cyflwyno a dogfennau'r archwiliad ar gael i'w gweld ar wefan yr archwiliad: <https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/archwiliad-2025>.

Bydd dogfennau pellach, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â'r gwrandawiadau, yn cael eu hychwanegu at y wefan wrth i'r archwiliad fynd rhagddo. Felly mae'n bwysig cadw llygad ar y wefan am ddiweddariadau.

Dylai unrhyw gyfranogwr sy'n methu â chael mynediad i'r rhyngwrwyd neu sy'n ei chael hi'n anodd gweld dogfennau electronig gysylltu â'r Swyddog Rhaglen fel y gellir rhoi trefniadau eraill ar waith. Noder bod mynediad i'r rhyngwrwyd ar gael am ddim yn llyfrgelloedd y cyngor.

4. Rôl yr arolygydd

Fel y nodir yn 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu' Llywodraeth Cymru, byddaf yn defnyddio tri phrawf i asesu cadernid yr CDLl:

1. A yw'r cynllun yn addas?
2. A yw'r cynllun yn briodol?
3. A fydd y cynllun yn cyflawni?

Rwyf ond yn gallu argymhell newidiadau i'r CDLl os ydynt yn angenrheidiol i ddatrys problemau cadernid neu gydymffurfedd cyfreithiol. Bydd unrhyw newidiadau a argymhellir yn rhwymol ar y cyngor ac fel arfer byddant yn destun ymgynghoriad yn dilyn y gwrandawiadau.

5. Gwrandawiadau'r archwiliad

Fel rhan o'r archwiliad, bydd cyfres o wrandawiadau cyhoeddus. Gall unrhyw un arsylwi mewn gwrandawiad, ond mae cyfranogiad wedi'i gyfyngu i bobl a gyflwynodd sylw a wnaed yn briodol sy'n ceisio gwneud newid i'r cynllun yn ystod y cyfnodau ymgynghori ar 'ail gynllun adnau' yr CDLl neu 'newidiadau â ffocws'.

Cynhelir gwrandawiadau'n **rhithwir** a byddant yn dechrau am **10am ar ddydd Mawrth 10 Tachwedd 2026**.

Mae **rhaglen ddrafft o wrandawiadau**, gyda rhestr o gyfranogwyr posibl ar gyfer pob sesiwn, wedi'i chyhoeddi ar wefan yr archwiliad. Fersiwn gychwynnol yw hon ac mae'n debygol o newid. Cyhoeddir y rhaglen derfynol, gan gynnwys cyfranogwyr sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer y gwrandawiadau a **rhestr fanwl o faterion, materion a chwestiynau** i'w trafod yn y gwrandawiadau, ar neu cyn **18 Medi 2026**.

Os ydych chi'n bwriadu cymryd rhan mewn gwrandawiad, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech chi gadarnhau hyn gyda'r Swyddog Rhaglen erbyn **hanner dydd ar 28 Awst 2026** fan bellaf. Rhowch wybod i mi hefyd os oes angen gwneud unrhyw addasiadau i hwyluso eich presenoldeb.

Sut alla i wneud cais i gael siarad mewn gwrandawiad?

Os nad ydych wedi'ch rhestru fel cyfranogwr yn rhaglen ddrafft y gwrandawiadau ond eich bod am gymryd rhan, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, er mwyn cymryd rhan a siarad mewn gwrandawiad, bydd angen i chi fod wedi cyflwyno sylw a wnaed yn briodol sy'n ceisio gwneud newid i'r cynllun.

Oes angen i mi fynychu gwrandawriad?

Rhoddir pwysau cyfartal i dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig. Felly nid oes angen cymryd rhan mewn gwrandawriad oni bai eich bod yn bwriadu ymhelaethu ar bwyntiau a wnaed eisoes yn ysgrifenedig neu os ydych chi am ymateb i bwyntiau a wnaed gan eraill.

Sut ydw i'n ymuno â gwrandawriad neu'n ei arsylwi?

Cynhelir y gwrandawiadau fel cynhadledd fideo ar Microsoft Teams. Nid oes angen i chi fod wedi gosod hwn ar eich system i ymuno. Darperir gwybodaeth a chyfarwyddiadau ar sut i ymuno yn nes at yr amser.

Bydd croeso i gyfranogwyr nad ydynt am ymddangos ar y sgrin adael eu camera wedi'i ddiffodd.

Os yw'n anodd i chi gael mynediad at gyfrifiadur neu ffôn clyfar i gymryd rhan yn y gwrandawiadau neu i'w harsylwi, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl.

A fydd gwrandawiadau'n cael eu cynnal yn ddwyieithog?

Croesewir cyfranogiad yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os oes un neu fwy o gyfranogwyr mewn gwrandawriad wedi nodi eu bod yn well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg, bydd y cyngor yn trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd. Er mwyn osgoi gohiriadau diangen, bydd y Swyddog Rhaglen yn ceisio cadarnhau dewis iaith y cyfranogwyr cyn cynnal gwrandawiadau.

Sut fydd y gwrandawiadau'n cael eu cynnal?

Bydd pob gwrandawriad yn drafodaeth strwythuredig ac yn cael ei arwain gennyf i. Fel arfer, bydd agenda pob sesiwn yn dilyn y rhestr o faterion, cwestiynau a phynciau a gyhoeddwyd cyn y gwrandawiadau. Mae rhagor o wybodaeth am sut y bydd sesiynau'r gwrandawiadau'n cael eu cynnal wedi'i nodi yn ein canllawiau gweithdrefnol ar gyfer yr archwiliad.

Pa mor hir fydd pob gwrandawriad yn para?

Mae amser dechrau pob gwrandawriad wedi'i restru yn y rhaglen a byddant fel arfer yn gorffen erbyn 5pm fan bellaf. Fel arfer, bydd cinio rhwng 1pm a 2pm. Fel arfer, cymerir seibiannau byr ganol y bore a chanol y prynhawn neu yn ôl yr angen.

Nid yw'r CDLL yn cynnwys fy 'safle ymgeisiol'. Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Nid wyf ar hyn o bryd yn bwriadu cynnal gwrandawriad ar safleoedd ymgeisiol sydd wedi'u hepgor. Yn lle hynny, rwyf wedi gwahodd y rhai sy'n hyrwyddo safleoedd o'r fath i gymryd rhan mewn gwrandawiadau ynghylch strategaeth yr CDLL. Nid yw'r sesiwn hon yn gyfle i drafod safleoedd amgen ond, yn hytrach, yn gyfle i gyfranogwyr esbonio pam nad ydynt yn ystyried bod y strategaeth arfaethedig (gan gynnwys ffiniau aneddiadau a

nodwyd) yn 'gadarn'. Os byddaf yn gweld bod angen dyraniadau safleoedd newydd, gellir cynnal gwrandawriad ychwanegol i drafod safleoedd ymgeisiol sydd wedi'u hepgor.

6. Datganiadau ysgrifenedig pellach

Gall cyfranogwyr mewn gwrandawriadau gyflwyno datganiadau ysgrifenedig pellach mewn ymateb i'r rhestr derfynol o faterion, problemau a chwestiynau, er nad oes gofyniad i wneud hynny.

Os caiff ei gynhyrchu, dylid cyflwyno datganiad ysgrifenedig ar wahân ar gyfer pob gwrandawriad y mae'r cyfranogwr yn cymryd rhan ynddo. Rhaid i ddatganiadau ysgrifenedig wneud y canlynol:

- Ymateb i'r materion, y problemau a'r cwestiynau a gyhoeddwyd yn unig
- Ac eithrio datganiadau a gyflwynir gan y cyngor, heb fod yn hirach na 3,000 o eiriau (ac eithrio atodiadau, ond dylid atodi'r rhain dim ond os yw hynny'n hanfodol)
- Naill ai ymwneud â'r sylw ysgrifenedig gwreiddiol, neu â materion newydd sydd wedi codi ers gwneud y sylw gwreiddiol
- Peidio ag ailadrodd yr hyn oedd yn y sylw gwreiddiol yn unig
- Nodi rhif adnabod y sawl a wnaed y sylw

Rhaid i fersiwn electronig a dau gopi papur o unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig pellach ddod i law erbyn **hanner dydd ar 23 Hydref 2026**. Mae'n annhebygol y bydd cyflwyniadau hwyr yn cael eu derbyn. Gellir dychwelyd unrhyw ddatganiadau rhy hir, neu sy'n cynnwys deunydd amherthnasol neu ailadroddus.

7. Datganiadau tir cyffredin

Os yw cyfranogwyr yn yr archwiliad yn dymuno cymryd rhan mewn datganiadau tir cyffredin â'i gilydd, dylid cyflwyno fersiwn electronig a dau gopi papur i'r Swyddog Rhaglen erbyn y dyddiadau cau a bennir uchod ar gyfer datganiadau ysgrifenedig pellach.

8. Ymweliadau safle

Byddaf yn ymweld â safleoedd ac ardaloedd perthnasol os oes angen i asesu a yw'r CDLI yn gadarn. Gallaf gynnal ymweliadau safle ar unrhyw adeg yn ystod yr archwiliad. Fel arfer, bydd ymweliadau yn ddigwmni oni bai fod mynediad i dir preifat yn angenrheidiol.

9. Cau'r archwiliad

Ar ôl y gwrandawriadau, bydd yr archwiliad yn parhau ar agor nes bod fy adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyngor. Ni dderbynnir unrhyw sylwadau na thystiolaeth bellach yn ystod y cyfnod hwn oni bai ein bod wedi gofyn yn benodol amdani.

10. Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr archwiliad, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen.

Ian Stevens
Arolygydd